

08 / 04 / 22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd tymor prysur, ga i fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi gyd fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol, er lles pob un o'n disgyblion a hoffwn ddymuno Pasg hapus a diogel i chi gyd. Hoffwn eich hysbysu **na fydd Bryn Tawe (yn unol â gweddill ysgolion Abertawe) ar agor ar ddydd Gwener y 28ain o Ebrill**. Dyma'r dyddiad dynodedig ar gyfer y Gŵyl y Banc ychwanegol oherwydd dathliad 'Jiwbili'r' Frenhines ar gyfer ysgolion Abertawe.

Hoffwn estyn diolch arbennig i ddau aelod o staff sydd yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor yma. Diolch mawr a dymuniadau gorau i Mrs Marie Phillips sydd yn newid gyrfa ar ôl y Pasg. Mae Mrs Phillips wedi bod yn aelod brwd iawn o staff Bryn Tawe ers 2007 ac wedi cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant yr ysgol ac hefyd i fywydau disgyblion yr ysgol am 15 mlynedd! Yn ogystal, mae Mr David Fletcher, sydd wedi bod ar ein staff ers 2015, yn symud i rôl fel athro TGCh yn Ysgol y Strade ac mae ein diolch yn fawr iddo, a dymuniadau gorau yn eich swydd newydd.

Gydag wythnosau prin cyn yr arholiadau allanol, ga i eich annog fel rhieni a gofalwyr i **gefnogi eich plentyn i adolygu'n drylwyr** ar gyfer her yr arholiadau yma, sydd yn allweddol ar gyfer eu hyder! Bydd eu cefnogi i greu amserlenni adolygu, eu hannog i ddyfalbarhau, eu cefnogi yn emosiynol, rheoli eu hamser hamdden ac ar sgrîn, sicrhau eu bod yn derbyn digon o gwsg ac yn bwyta'n iach yn gamau pwysig i ganiatáu eich mab neu ferch i berfformio o'u gorau dros yr wythnosau nesaf.

Mae yna gefnogaeth **strategaethau adolygu** ar gael yn TEAM blynyddoedd 10-13 – ewch i TEAM cyffredinol y flwyddyn ac i'r adran 'Ffeiliau – Adolygu Cyffredinol' er mwyn dod o hyd i'r adnoddau. Bydd athrawon gwahanol yn cynnal sesiynau adolygu byw yn yr ysgol ac yn rhithiol ar gyfer disgyblion fydd yn sefyll arholiadau eleni. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r rhain (amserlen yn Teams Bl.11), ond ga i ofyn i chi eu hannog i fynychu'r cyfleoedd gwerthfawr yma.?

Yn ogystal, bydd disgyblion blynyddoedd 7-9 yn sefyll eu **Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol** yn ystod y tymor nesaf a byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion llawnach yn agosach at yr amser:

- Blwyddyn 9 rhwng y 9-12/05/22;
- Blynyddoedd 7 ac 8 ar ôl hanner tymor Sulgwyn.

Bydd profion dosbarth diwedd Blwyddyn 7 ac 8 hefyd yn digwydd ar ôl hanner tymor rhwng y 13-17/06/22.

Diolch i **rieni blwyddyn 9** am gefnogi eich plentyn wrth ddewis eu hopsiynau ar gyfer eu cyrsiau TGAU. Byddwn yn rhannu'r colofnau terfynol yn gynnar ar ddechrau'r tymor nesaf a braf yw nodi bod mwy na 90% o'r disgyblion yn gallu dewis eu 3 opsiwn dewisol, gyda



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



phawb yn gallu dewis o leiaf 2 allan o'u 3 prif ddewis. Byddwn yn cynghori'r disgyblion yma sydd ddim yn derbyn pob dewis yn gynnar yn ystod y tymor, am y cyrsiau mwyaf addas ar eu cyfer, ac wrth gwrs byddwn yn eich cynnwys chi, ein rhieni a'n gofawlyr, yn y broses bwysig yma. Bydd cwblhau'r broses yma yn ein caniatâu i ddechrau ar y cyrsiau TGAU gyda disgyblion blwyddyn 9 yn syth ar ôl hanner tymor Sulgwyn, ar ddydd Llun y 6ed o Fehefin.

Byddwn yn dychwelyd **ar ôl y Pasg ar lefel rybudd isel**, yn unol â fframwaith penderfyniadau LIC. Bydd disgwyl, ar hyn o bryd, i ddisgyblion barhau i wisgo mygydau, ond byddwn yn eich diweddarau am y sefyllfa ar ddechrau'r tymor newydd. Am fanylion pellach am y mesurau Cofid pan fyddwn yn dychwelyd, gweler y [llythyr yma](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Abertawe.

Gyda'r newid uchod, byddwn yn ail ddechrau ar **wasanaeth clwb brecwast** ar gyfer ein disgyblion rhwng 07:45 a 08:25. Yn ogystal, byddwn yn dechrau defnyddio ein **hardal bysys newydd** o ddydd Mawrth y 03.05.22. Mae hyn yn golygu rhai newidiadau iechyd a diogelwch allweddol hefyd i drefniadau cerddwyr a disgyblion sy'n derbyn 'liff't' wrth gyrraedd a gadael y safle. Byddwn yn rhannu'r manylion pwysig iechyd a diogelwch yma gyda chi ar ddechrau'r tymor nesaf.

Diolch eto i'n rieni sydd yn sicrhau bod eu plentyn yn cydymffurfio gyda'n diswgyliadau gwisg ac felly'n sicrhau bod eu plentyn yn ymrwmiu'n llwyr i'r safonau a'n dyheadau ni am ein disgyblion. Heb os, gwelwn gysylltiad cyson rhwng diswgyliadau gwisg personol â chynnydd, ymddygiad a chyfraniad disgyblion yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth gennyhych am ein **diswgyliadau gwisg ac ymddangosiad**, gweler y [manyion yma](#) ar ein safwe.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennyhych ynglŷn â'r uchod, neu unrhyw fater arall yn ymwneud ag addysg eich plentyn, cysylltwch â ni yn yr ysgol.

Yn ddiidwyll,



Pennaeth



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur

